



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: AwelyMor@planninginspectorate.gov.uk

Alex Herbert
Onshore Consents Manager
RWE

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Gan ebost

Dyddiad: 18 Mai 2022

Annwyl Mr Herbert,

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 51

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

Cyngor ar ôl cyhoeddi penderfyniad i dderbyn y cais i'w archwilio

Ar 18 Mai 2022, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y cais ar gyfer y prosiect uchod yn bodloni'r profion derbyn o dan adran 55 Deddf Cynllunio 2008. Mae rhestr wirio derbyn yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) a dogfennau'r cais wedi cael eu cyhoeddi ac maen nhw ar gael ar dudalen y prosiect ar ein gwefan.

Wrth gynnal archwiliadau yn ystod y cam derbyn, mae'r Arolygiaeth wedi gwneud rhai arsylwadau cychwynnol ynglŷn â'r cais. Mae'r llythyr hwn yn cynrychioli cyngor i'r Ymgeisydd a roddir o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â'r arsylwadau cychwynnol hyn. Dylai'r Ymgeisydd roi sylw i'w gynnwys ac ystyried sut gellid cymryd camau priodol i ymateb iddo.

Amlygu ymgynghoriadau ar sail ragofalus

O ystyried amgylchiadau unigol yr achos hwn, mae'r Arolygiaeth yn cynghori defnyddio dull rhagofalus o ymgynghori o dan a42(1)(a) Deddf Cynllunio 2008 er mwyn sicrhau bod pawb y gallai'r cais effeithio arnynt neu y gallent fod â buddiant yn y cais yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn yn yr Archwiliad o'r cais. Ar y sail hon, gallai'r Ymgeisydd ddymuno hysbysu'r cyrff a restrir ym Mluch 6 y rhestr wirio adran 55 pan fydd yn cyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd o dan a56(2)(a) Deddf Cynllunio 2008; oni bai bod cyfiawnhad penodol pam nad oes angen gwneud hyn.

Mân wallau a hepgoriadau

Mae mân wallau a hepgoriadau, fel y manylir ym Mluch 30 y rhestr wirio derbyn.

Cynlluniau

Dylid cynnal adolygiad cyffredinol o'r holl gynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn eglur. Mae nifer o achosion lle y byddai hyn yn ddefnyddiol yn y cynlluniau a gyflwynwyd. Er enghraifft:

- Byddai'n ddefnyddiol lliwio/tywyllu ardaloedd coetir - byddai lliw tywyllu gwahanol ar gyfer Coetiroedd Hynafol yn ddefnyddiol.
- Nid yw'r Llyfr Cyfeirio (BoR) yn cynnwys rhifau dalenni lle mae lleiniau wedi'u lleoli ac nid yw Llain 10 yn amlwg yn y Cynlluniau Tir ar y tir.
- Byddai'n ddefnyddiol petai rhifau'r dalenni mewn cynlluniau yn adlewyrchu'r rhifau a ddefnyddiwyd ar gyfer ardaloedd a amlygwyd ar y Cynlluniau Allweddol perthnasol, a bod y meintiau a ddangosir ar Gynlluniau Allweddol yn adlewyrchu'r meintiau ar y ddalen cynlluniau perthnasol, yn enwedig ardal '1'.
- Dylid gwirio cynlluniau i sicrhau bod saethau labelu lleiniau'n pwyntio at yr ardal y tu mewn i leiniau, yn hytrach nag at y llinellau ffin. Dylid ceisio sicrhau nad yw llinellau labelu lleiniau yn croesi ei gilydd.
- Byddai'n ddefnyddiol petai'r disgrifiad o'r lleiniau melyn, glas a phinc yn allwedd y Cynlluniau Tir ar y tir yn gyson â'r disgrifiad yn Nhabl 1 y Llyfr Cyfeirio.
- Ar Ddalen 1 o 10 o'r Cynlluniau Tir ar y tir, mae llain heb rif i'r dwyrain o Lain 12, ac ar Ddalen 2 o 10 nid yw Llain 78 wedi'i labelu ar y mewnosodiad. Mae angen adolygu'r mewnosodiadau ar yr holl ddalenni er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn ddarllenadwy, bod yr holl leiniau wedi'u labelu a'u bod yn adlewyrchu'r meintiau mewnosodiad cywir.
- Dylid gwneud yn siŵr bod yr holl leiniau wedi'u dangos yn glir ar y cynlluniau. Er enghraifft, nid yw Llain 113 ar Ddalen 3 o 10 o'r Cynlluniau Tir ar y tir yn amlwg.
- Yn y Cynlluniau Gwaith, dylai 'Gwaith Rhif 23' gael ei labelu ar Ddalenni 9 ac 11.
- Mae'r allwedd yn y Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad yn cyfeirio at Atodlen 4 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) yn lle Atodlen 3.
- Gellid gwneud enwau llwybrau troed yn fwy ar y Cynlluniau Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro.
- Byddai'n ddefnyddiol anodi asedau treftadaeth ar y Cynllun Amgylchedd Hanesyddol, a chyfeirir at y Cynllun hwn a'r Cynllun Lleoliad fel '2.1'.
- Byddai rhestr/tabll yn ddefnyddiol mewn unrhyw gynlluniau dilynol i amlygu unrhyw ddiwygiadau.

Datganiad Amgylcheddol (ES)

Mae'r Datganiad Amgylcheddol, fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd, yn cynnwys gwybodaeth gryno am arbenigedd y cwmnïau sy'n gyfrifol am lunio penodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol. Fodd bynnag, o ystyried gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, dylid ystyried diweddaru'r Datganiad Amgylcheddol i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r arbenigwyr unigol allweddol sy'n ymwneud â phob un o bynciau'r Datganiad Amgylcheddol.

Mae nifer o achosion eraill lle y byddai eglurhad yn ddefnyddiol yn y Datganiad Amgylcheddol. Er enghraifft:

- Cyfrol 2 Pennod 10 (Asesiad o'r Effaith ar y Morlun, y Dirwedd a'r Effaith Weledol) – mae'r cyfeiriadau at ffigurau a delweddau ym mharagraff 3 yn ymddangos yn

anghywir. Byddai'n ddefnyddiol amlygu'r holl gasgliadau ynglŷn ag arwyddocâd effaith a adroddwyd yn nhestun y bennod er mwyn hwyluso darllen.

- Cyfrol 2 Pennod 15 (Casgliadau ar y môr) – mae penawdau'r colofnau yn anghywir yn Nhabl 3 Adareg.
- Cyfrol 3 Pennod 2 (Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol) – mae lleoliad rhai o'r derbynyddion a grybwyllir yn Nhabl 11 yn aneglur (e.e. Plas Lorna). Byddai cynllun sy'n dangos lleoliad y derbynyddion hyn yn ddefnyddiol.
- Cyfrol 3 Pennod 3 (Materion economaidd-gymdeithasol) – nid yw'n ymddangos bod y ffigurau yn Nhabl 12 yn gwneud cyfanswm.
- Cyfrol 3 Pennod 11 (Ansawdd Aer) – mae Tabl 4 yn cyfeirio at 'Gynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad (NVMP)' ddwywaith. A ddylai gyfeirio at 'Gynllun Rheoli Ansawdd Aer (AQMP)' yn lle hynny?

Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol

Mae Atodiad 3 yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol yn cyfeirio at Ffigur 40, ond nid yw'n ymddangos bod hwn wedi cael ei gynnwys yn y ddogfen. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu fersiwn ddiwygiedig o Atodiad 3 sy'n cynnwys y ffigur hwn.

Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)

Mae'n ymddangos bod nifer o anghysondebau yn y dDCO, gan gynnwys;

- Erthygl 3(2) – mae hyn yn cyfeirio at 'MLW', ond nid yw MLW wedi'i ddiffinio yn Erthygl 2.
- Erthygl 11(1) – enw cywir y cynllun yw'r 'cynllun cau hawliau tramwy cyhoeddus dros dro'.
- Erthygl 40(1)(i) a (j) – mae enw'r ddogfen yn anghyson ag enw'r ddogfen a gyflwynwyd.
- Atodlen 1 – mae hyn yn datgan bod 'Gwaith Rhif 1, 1A, 2, 2A a 3 i'w adeiladu tua'r môr o benllanw cymedrig y gorllanw (MHWS) o fewn yr ardal a amlinellir gan y cyfesurynnau a ddangosir ar gynllun terfynau'r gorchymyn ac a restrir yn y Tabl 1 isod...'. Fodd bynnag, nid yw'r 'cynllun terfynau'r gorchymyn' wedi'i ddiffinio yn Erthygl 2 ac mae'n ymddangos bod y cyfesurynnau hyn wedi'u dangos yn y ddogfen o'r teitl 'Cynllun Lleoliad' (2.1), nad yw wedi'i diffinio yn Erthygl 2 ychwaith.
- Atodlen 3 – mae pwyntiau BI a BJ a ddangosir ar dudalen olaf y cynllun gwaith stryd a mynediad wedi cael eu hepgor.
- Atodlen 4, colofnau 1 a 2 – mae anghysondebau rhwng y wybodaeth yn y colofnau hyn a'r wybodaeth a ddangosir ar y cynllun cau hawliau tramwy cyhoeddus dros dro, ac enw'r cynllun yw'r 'cynllun cau hawliau tramwy cyhoeddus dro dro'.
- Atodlen 5, colofn 1 – nid yw cyfeiriadau at AC-Q yn ymddangos ar y cynlluniau gwaith stryd a mynediad. Mae 'AC-Q1' ac 'AC-Q2' yn ymddangos ar y cynlluniau ond wedi'u hepgor o Atodlen 5. Byddai'n ddefnyddiol hefyd i nodi'r rhifau dalen perthnasol.

Yn ogystal â'r uchod, dylai'r Ymgeisydd gynnal adolygiad cyffredinol o'r dDCO er mwyn gwirio cysondeb, gramadeg ac atalnod.

Delweddau

Byddai'n ddefnyddiol i'r Ymgeisydd ddarparu set lawn copi caled o ddelweddau at maint gwyllo cywir i'r Arolygiaeth yn ymwneud ag: a) yr Asesiad o'r Effaith ar y Morlun, y Dirwedd a'r Effaith Weledol; a b) yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, i gynorthwyo'r Awdurdod Archwilio, pan gaiff ei benodi, yn ystod unrhyw ymweliadau safle.

Dogfennau / gwybodaeth sydd ar goll

Mae'n ymddangos bod rhai achosion lle na ddarparwyd gwybodaeth y cyfeirir ati yn nogfennau'r cais, gan gynnwys y canlynol:

- 'Atodiad 1' ac 'Atodiad 2' y cyfeirir atynt yn y Datganiad Ariannu (dogfen 4.2).
- '5.8.6 2021/2022 Amodau'r Tir' a '5.11.1 Methodoleg Asesu Llwch Adeiladu' y cyfeirir atynt yn Nhabl 1 Cyfrol 1 Pennod 1: Cyflwyniad (dogfen 6.1.1). Cyfeirir at '5.11.2 Atodiad 11.2 Nodyn Technegol – Amleddau Electromagnetig' yn yr un tabl. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod dogfen yn cyd-fynd â'r cyfeiriad hwn.
- Mae Cyfrol 5, Atodiad 5.8: Adroddiad Arolwg Adar Bridio (BBSR) (dogfen 6.5.5.8) yn cyfeirio at 'Atodiad 04' cyfrinachol. Nid yw'n ymddangos bod hwn wedi cael ei ddarparu. Yn ogystal, mae Ffigurau 3.1 a 3.2 wedi cael eu darparu yn rhan o'r BBSR yn hytrach nag yn rhan o 'Atodiad 04' cyfrinachol fel yr awgrymwyd.
- Mae rhestr wirio adran 55 yr Ymgeisydd yn cyfeirio at 'Adroddiad Gwerthuso Torri Ffosydd Treialu Archaeolegol ar y Tir (dros dro) 8.15'. Nid yw'n ymddangos bod y ddogfen hon wedi cael ei darparu ac nid yw'n ymddangos bod cyfeiriad ati mewn man arall ychwaith.

Cyflwyno dogfennau wedi'u diweddarau

Byddai'n ddefnyddiol ac o gymorth i'r broses archwilio petai unrhyw wybodaeth, dogfennau egluro neu ddiwygiadau a wnaed i ddogfennau'r cais yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth cyn gynted â phosibl i gynorthwyo'r rhai hynny a allai elwa o'u cyhoeddi tra'u bod yn paratoi Sylwadau Perthnasol.

Rhowch sylw gofalus i'r cyngor a amlinellir yn y llythyr a gweithredwch arno yn unol â hynny. Bydd hyn yn cyfrannu at archwiliad mwy effeithlon ac yn rhoi tawelwch meddwl i unrhyw Awdurdod Archwilio yn y dyfodol fod y dogfennau'n gyflawn ac yn gywir. Hyderwn y bydd y cyngor hwn yn ddefnyddiol, ond os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r materion, mae croeso i chi gysylltu â'n swyddfa gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir,

Jake Stephens

Rheolwr Achos

Nid yw'r cyfartherbiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.